# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 4 GORFFENNAF 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | M H Jones | E J King |
| R D Lewis | P B Smith | D W W Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P M Black, M B Lewis a/ac A H Stevens

13 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddianau canlynol:

Y Cynghorydd T M White – Eitem 5 Agenda – Canllawiau Cynllunio Atodol (HMO) – Personol – Mae gen i berthynas sy'n byw yn ardal y CAA

14 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y pwyllgorau cynllunio a gynhaliwyd ar 25 Mai a 6 Mehefin 2017 fel cofnodion cywir.

15 **EITEMAU I'W GOHIRIO/TYNNU'N ÔL.**

Dim.

16 **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL AR GYFER TAI AMLFEDDIANNAETH A LLETY PWRPASOL I FYFYRWYR.**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm a'r Ymgynghorydd Cynllunio o Lichfields adroddiad manwl ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a oedd yn amlinellu'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghorydd cyhoeddus diweddar i aelodau, a cheisiwyd cytuno ar yr ymatebion i'r rhain a'r diwygiadau arfaethedig i'r Canllawiau, ac i fabwysiadu'r fersiwn derfynol fel y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).

Amlinellwyd a chynhwyswyd manylion cefndir y gwaith o baratoi'r cynigion a luniwyd mewn partneriaeth â'r ymgynghorwyr cynllunio, Lichfields, yn yr adroddiad.

Rhoddwyd manylion y cyd-destun cynllunio, pwrpas y CCA, yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r ymarfer ymgysylltu a gynhaliwyd, yr ymatebion a dderbyniwyd a'r materion allweddol a oedd yn codi o'r ymgynghoriad yn yr adroddiad yn ogystal â'r goblygiadau ariannol a chyfreithiol.

Darparwyd cyflwyniad gweledol ac adroddwyd am fwy o lythyrau gwrthwynebiad hwyr.

Siaradodd Mr Roach a Mr Rowe yn erbyn y cynigion.

Siaradodd y Cynghorwyr C E Lloyd a N J Davies (aelodau lleol) mewn perthynas â'r cynigion, gan godi pryderon gan breswylwyr lleol gan geisio eglurder ynghylch agweddau penodol ar y canllawiau arfaethedig. Siaradodd y Cynghorydd P N May (aelod lleol) yn erbyn y cynigion ac awgrymodd ddiwygiadau arfaethedig i'r cynllun.

Yna trafodwyd y cynigion Aelodau'r Pwyllgor. Dywedodd y Swyddog Cynllunio wrth y Pwyllgor y byddai’r newidiadau i'r CCA a fyddai'n gosod cyfyngiadau ychwanegol ar HMOs yn arwain at yr angen am fwy o waith i ystyried effeithiau ôl-ddilynol newidiadau o'r fath a'r angen am ddiwygiadau angenrheidiol eraill i'r CCA. Dywedodd y Swyddog Cyfreithiol wrth y Pwyllgor hefyd na ellid gwneud diwygiadau i'r argymhelliad yn yr adroddiad sy'n ymwneud â newidiadau i'r CCA, megis diwygiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau trothwy, heb wneud ymarfer ymgynghori arall.

**PENDERFYNWYD** peidio â chymeradwyo’r argymhellion fel y’u hamlinellir yn yr adroddiad a phenderfynwyd gwneud mwy o waith i adolygu'r CCA a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ychwanegol. Penderfynwyd y dylai gwaith pellach ail-archwilio’r cyfyngiadau trothwy ar gyfer HMOs yn y sir, gan gynnwys effaith cyflwyno trothwy o 15% yn ne ward Uplands a chyflwyno polisi i atal 'rhyngosod' eiddo nad ydynt yn HMO rhwng eiddo HMOs.

17 **CYMERADWYO ARWEINIAD DYLUNIO DRAFFT ATODOL WEDI'I DDIWEDDARU I BERCHNOGION AR GYFER YMGYNGHORIAD.**

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a ddarparodd drosolwg o'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft wedi’i diweddaru, "Canllaw Dylunio ar gyfer Datblygiadau Perchnogion Tai" i'r Pwyllgor a cheisiodd awdurdod i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a chyda rhanddeiliad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo’r CCA drafft fel yr atodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

18 **GORCHYMYN CADW COED 611 - TIR YN 344, HEOL ABERTAWE, WAUNARLWYDD, ABERTAWE.**

Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio adroddiad er mwyn ystyried cadarnhau, fel gorchymyn llawn, y Gorchymyn Cadw Coed 611 dros dro ar dir yn 344, Heol Abertawe, Waunarlwydd, Abertawe.

Amlinellwyd a rhoddwyd manylion y gwrthwynebiad a’r sylwadau a dderbyniwyd o ran y cynnig yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r Gorchymyn Cadw Coed 611: Tir yn 334, Heol Abertawe, Waunarlwydd, Abertawe

19 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO O DAN DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:**

**#(Eitem 1) Cais Cynllunio 2017/1049FUL - 123 Rhodfa San Helen, Brynmill, Abertawe**

Gan na fabwysiadwyd y CCA ar HMOs gan y Pwyllgor, tynnwyd Argymhelliad B (gwrthwynebiad) yn ôl.

**#(Eitem 2) Cais Cynllunio 2017/0993/FUL – 90 Rhodfa Hawthorn, Uplands, Abertawe**

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr M Blagrove (gwrthwynebydd) a Mr D Micklewright.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**#(Eitem 3) Cais Cynllunio 2017/0775/FUL – Tir yn Heol Pentre Bach, Gorseinon, Abertawe SA4 4ZA.**

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr A Rees (asiant).

Anerchodd J P Curtice (aelod lleol) y Pwyllgor a gofynnodd i'r cynigion arafu traffig arfaethedig gael eu diwygio fel eu bod yn cynnwys llwyfannau arafu ac nid twmpathau cyflymder.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Tudalen 242 - Gwall teipio yn hanes y safle. Cymeradwywyd cais 2015/2506 ar 30 Medi 2016, nid 30 Medi 2011.
Ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, mae gwaith wedi dechrau ar y safle i roi'r caniatâd cynllunio 2015/2506 ar waith. Mae'r caniatâd cynllunio felly mewn bodolaeth a bydd mewn bodolaeth am byth. O ganlyniad i hyn, a fel yr amlinellwyd ar dudalen 264 yr adroddiad, nid oes angen ystyried egwyddor y datblygiad ymhellach.

Cymeradwywyd yn amodol ar gytundeb S106.

**#(Eitem 4) Cais Cynllunio 2017/0482/S73 – Tir yn Nhŷ Drummau, Heol Gellifedw, Gellifedw, Abertawe**

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr N Green (asiant).

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Yn y paragraff olaf ond un ar dudalen 290 yr adroddiad, dylai llinell 4 ddarllen, "heblaw am roi 'Louise Thomas' ac 'Emma Jones' yn lle 'Lucy Thomas' a 'Lisa Thomas'.

Cymeradwywyd yn amodol ar roi caniatâd cynllunio dros dro am 4 blynedd ac i'r unigolion a enwyd fel yr amlinellir.

**#(Eitem 5) Cais Cynllunio 2017/0768/S73 – Tir i'r gorllewin o Barc y Bont, ger Trinity Place, Pontarddulais, Abertawe**

Daeth y cyfarfod I ben am 4.37 pm

**CADEIRYDD**